Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Plant Bach Sarn

**Canolfan Ddysgu Gydol Oes Sarn**
**Merfield Close**
**Sarn**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 9SW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/06/2012**

## Ynglŷn â'r lleoliad

Mae Cylch Meithrin Plant Bach Sarn yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Ddysgu Gydol Oes Sarn, Sarn, Pen-y-bont ar Ogwr. Daw'r holl blant sy'n mynychu'r cylch o'r pentref a'r ardal gyfagos. Cydnabyddir fod yr ardal o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Mae'r cylch wedi ei leoli yn y ganolfan ers 2011. Mae'n rhannu'r defnydd o un ystafell ac ardal chwarae allanol gydag asiantaethau eraill sy'n defnyddio'r ganolfan.

Dywed y cylch daw ddim un plentyn o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac mae'r cylch yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pedwar plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cylch yn derbyn cefnogaeth wrth asiantaethau allanol i gefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol. Mae un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw tua hanner y plant o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r cylch wedi ei gofrestru am uchafswm o 24 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd oed. Mae 31 o blant ar hyn o bryd yn mynychu'r cylch ar ryw adeg o'r wythnos. Mae 14 ohonynt, sy'n cael eu hariannu, yn dair blwydd oed. Mae'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn cefnogi'r cylch.

Mae'r cyd-arweinyddion yn ei swyddi fel arweinyddion ers 2001 a 2007. Mae tri aelod o staff yn ei cynorthwyo'n llawn amser. Mae ganddynt i gyd cymwysterau addas.

Ceir llyfryn llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr gyda manylion y cylch. Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r cylch sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff os oes angen. Mae'r cylch ar agor am bump bore'r wythnos rhwng 9.15yb a 12.15yp.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2010. Arolygwyd y cylch gan Estyn yn 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn;
- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda iawn ac yn elwa o weithgareddau diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae adnoddau da ar gael;
- mae perthynas gadarnhaol rhwng oedolion a phlant; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol ac mae pawb yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- mae'r arweinyddion a'r staff yn darparu cyfeiriad pwrpasol i waith y cylch;
- mae'r systemau hunan arfarnu yn effeithio'n briodol ar y cynllun datblygu;
- mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant; ac
- mae defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r cylch i:

A1 sicrhau fod cyflwyniadau yn cyfatebu’n addas i oedran y plant;

A2 sicrhau bod asesiadau dyddiol yn cael eu cwblhau’n gyson ac eu bod nhw’n arwain yn uniongyrchol at dargedau plant unigol;

A3 codi safonau’r staff yn y Gymraeg; a

A4 datblygu rôl y pwyllgor rheoli i sicrhau eu bod yn gwerthuso a monitro ymarferion y cylch yn rheolaidd.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud y cynnydd priodol ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn, sy'n aml iawn o dan y gwaelodlin disgwyliedig. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd digonol yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o blant â medrau gwrando sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae llawer o blant yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn trafod y tywydd yn dda. Nodwedd gynyddol arall o'u gallu yw'r ffaith iddynt ymateb yn y Gymraeg gydag ychydig o anogaeth i liwiau a rhifau.

Mae'r mwyafrif o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig o'u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol. Maent yn gweld pwrpas i wneud marciau a'u hysgrifen gynnar. Ychydig iawn o blant sy'n dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol ac mewn ffurf eithaf adnabyddus.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif ac yn defnyddio geirfa fathemategol syml yn briodol. Mae llawer o blant yn medru grwpio gwrthrychau yn ôl lliw neu siâp.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer electronig yn dda. Maent yn defnyddio camerâu digidol ar gyfer cofnodi ac yn defnyddio cyfrifiadur yn hyderus wrth reoli'r cyfarpar priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn creu cerddoriaeth. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o stôr o ganeuon Cymreig, gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau addas o amser. Maent yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn dda tu fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn ymgymryd yn frwdfrydig i'r ystod eang o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer ac yn datblygu eu medrau creadigol a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth briodol, yn unol â'u hoedran, o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth da bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae agwedd y rhan fwyaf o blant at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunnir ar eu cyfer. Mae llawer o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau addas o amser ac yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol yn ystod gweithgareddau. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o blant yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn uniaethu â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais, yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau. Mae'r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau a heriau i'r oedolion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau'r plant.

Mae'r cysylltiadau da â'r gymuned yn tynnu sylw'r plant at bobl, fel yr heddlu ac eraill, sy'n edrych ar eu hôl. Drwyddi draw, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos synnwyr o berthyn i'w cymuned. Maen nhw'n hapus ac yn derbyn gofal da iawn sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm.

Gosodir amser yn ddyddiol i'r holl staff gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a diddorol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Fodd bynnag, yn ystod amser snac, mae'r staff yn gweini ar y plant, sy'n cyfyngu'r cyfleoedd iddynt i ddatblygu eu medrau personal a chymdeithasol.

Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a chreadigaeth. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda ac mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant at ddefnyddio'r cyfarpar technolegol sy'n cynnwys cyfrifiadur a chamerâu. Mae gan blant llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau priodol, sy'n canolbwyntio ar bob ardal dysgu yn eu tro.

Agwedd digonol o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Nid Cymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu rhwng yr oedolion a'r plant ar bob achlysur. Fodd bynnag, trwy gyfleoedd cydlynus, mae pob un plentyn yn cael eu hannog i siarad yr iaith.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali a diwrnodau'r seintiau. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a chodi'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang sy'n briodol i'w hoedran yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol yn cynnwys cyfleoedd i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda a'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd.

Caiff yr holl blant gyfleoedd da i hau hadau, i ofalu am blanhigion ac ail-gylchu papur a bwyd. Mae hyn yn dechrau eu deall am dyfiant planhigion a chynaladwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae'r staff yn sensitif i anghenion y plant, sy'n annog pob plentyn i gymryd rhan a mwynhau.

Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Wrth gyflwyno gweithgareddau ffocws, mae cyfeiriad da tuag at yr amcan ddysgu a'r meini prawf llwyddiant. Felly, mae'r plant yn cael eu herio'n ddigonol yn unol â'u galluoedd.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion, tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn modelu iaith yn ddigonol i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae safonau Cymraeg y staff yn amrywio llawer yn ôl ansawdd ac mae llawer o'r staff yn ceisio codi safonau personol eu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o staff yn dueddol i ddefnyddio fwy o Saesneg nag sy'n angenrheidiol gyda llawer o blant.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog, sy'n golygu bod gan staff systemau da i sicrhau fod y cylch yn rhedeg yn effeithiol wrth ystyried cyfrifoldebau addysgu. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cyflwyniadau yn cael eu cyfatebu'n briodol at oedran y plant ac mae ymatebion y plant dwy flwydd oed yn effeithio canolbwyntio'r plant hŷn.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau dyddiol yn arwain yn uniongyrchol at dargedau'r plant. Felly, nid yw'r staff yn hollol ymwybodol o dargedau plentyn unigol

a beth sydd angen i'r plentyn unigol i wneud i wella. Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant ar gael i rieni ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda iawn. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau eu hamser yn y cylch. Wrth gyrraedd, mae bron pob un plentyn yn dangos synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw'n ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r cwricwlwm eang, sy'n cynnwys ymwelwyr ac ymweliadau, yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn dda.

Mae'r gwaith dilynol yn y dosbarth yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy'n codi o'u gweithgareddau a synnwyr y plant o ryfeddu. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy'r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae bron pob un plentyn yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas. Mae'r cylch yn uned drefnus lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda, sy'n cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac yn ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae staff y cylch yn wyliadwrus iawn wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol yn effeithiol pan bo'r angen. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol.

Mae gan y cylch bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r cylch yn ddiogel, lle mae drws y fynedfa ar glo. Dim ond aelod o staff sy'n agor y drws, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg.

Defnyddir asiantaethau allanol a darperir cefnogaeth os oes angen. Ar hyn o bryd, mae pedwar plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch, drwy y gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu

hunigolrwydd yn cael i'w adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm o ansawdd pwrpasol sy'n cael ei gefnogi gan ardal allanol priodol. Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r cylch. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sydd wedi dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y cylch cymwysterau a phrofiad da ac mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd yr holl blant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb.

Defnyddir yr amgylchedd lleol yn effeithiol trwy ymweliadau i siopau cyfagos a thrwy ymwelwyr i'r cylch. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinyddion yn cynnwys yr holl staff yn y cynllunio, sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinyddion yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir a synnwyr o bwrpas i waith y cylch. Ceir yma ethos positif ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae'r arweinyddion a'r holl staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r cylch yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Mae strwythur rheoli yn bodoli sydd wedi'i sefydlu'n dda gyda diffiniad clir o ddyletswyddau. Mae'r arweinyddion yn dyletswyddo cyfrifoldebau yn effeithiol i eraill pan bo eisiau gwneud. Er bod y strwythur rheoli wedi'i sefydlu gyda diffiniad clir o ddyletswyddau, nid yw'r pwyllgor rheoli yn herio ymarferion y cylch gyda digon o fanylder. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor rheoli yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth perthnasol ac mae'r arweiniad yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'n datblygu cyfleoedd i weithio gyda'r ysgolion lleol i sicrhau cysylltiadau gwell.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch yn hunan arfarnu'n briodol ac yn nodi meysydd i wella trwy eu gweithredu er lles y plant. Mae hyn wedi cynnwys datblygu'r cynllunio, yr asesu, medrau rhifedd y plant, cynaladwyedd a threfniadau trosglwyddo.

Mae'r ardaloedd i wella yn cael eu targedu yn effeithiol a chynnil yn erbyn meini prawf llwyddiant a llinynnau amser yng nghynlluniau datblygu'r cylch. Mae'r cynlluniau datblygu yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r broses hunan arfarnu ac maent yn cael blaenoriaeth yn natblygiad y cylch. Mae'r arweinyddion yn trafod y broses yn hyderus, gyda dealltwriaeth a chlirdeb. Fodd bynnag, nid ydy'r pwyllgor rheoli yn herio'r systemau gyda digon o fanylder.

Mae'r staff yn mynychu cyfleoedd hyfforddi ac mae'r profiadau dysgu proffesiynol yma yn cael effaith adeiladol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rheini, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn sylwadau, yn mynegi eu boddhad â'r cylch ac maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Pan ddaw'r amser i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae agweddau cadarnhaol i'r cysylltiadau â'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol, sy'n cael eu defnyddio i elwa gwaith y cylch. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac wedi cyfrannu at y safonau da o ddarpariaeth. Mae'r cysylltiadau â'r ysgolion lleol yn datblygu.

Llwyddwyd y cylch i ennill grantiau ariannol sy'n cael eu defnyddio'n gyfrifol er lles y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y cylch yn cyd-weithio'n effeithiol. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o arbenigedd unigolion i elwa pob plentyn. Mae gan y cylch ddigon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae'r cylch yn defnyddio'r adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol a darparu profiadau da, sydd wedi cael eu cynllunio'n dda. Mae'r arweinyddion yn arwain yn dda a defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol.

Mae'r cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 10 o rieni a gofalwyr i'r holiaduron. Roedd bron pob un riant a gofalwr yn bositif iawn am holl waith y cylch heblaw am un riant a nododd fod dim digon o ymarfer corff ac un a nododd fod dim digon o gymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymatebion yma'n cymharu'n ffafriol iawn gyda chymariaethau meincnodol cenedlaethol.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob un plentyn yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â'u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod ganddynt dasgau sy'n ennyn eu diddordeb.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |